Newyddlen CCAUC

HEFCW **Newsletter**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Chwefror 2010 | February 2010

Cynnwys **Contents**	Full screen recommended Argymhellir sgrin lawn

National Assembly for Wales Finance Committee Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Matched funding scheme for voluntary giving Y cynllun arian cyfatebol ar gyfer rhoi gwirfoddol	Engaging with the Welsh Assembly Government's Economic Renewal Programme Cyfrannu at Raglen Adnewyddu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru	All things green Pob peth gwyrdd	www.hefcw.ac.uk Information about higher education, and for higher education providers.
Welsh universities recognised for their commitment to young people from care Cydnabod prifysgolion Cymru am eu hymrwymiad i bobl ifanc sy'n gadael gofal	Information toolkit for higher education governors Pecyn offer gwybodaeth i lywodraethwyr addysg uwch	Welsh Assembly Government Governance Review of HEFCW Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Lywodraethu yn CCAUC	HEFCW Council and Committees Cyngor a Phwyllgorau CCAUC	www.hefcw.ac.uk Gwybodaeth ynglŷn ag addysg uwch, ac ar gyfer darparwyr addysg uwch.

National Assembly for Wales Finance Committee

On 20 January 2010, HEFCW gave evidence before the National Assembly for Wales's Finance Committee's Inquiry into the Funding of Post-16, Further and Higher Education.

Our purpose was to inform the Committee about the basic factual position of higher education (HE) in Wales and potential issues that would be raised by a significant reduction in income for Wales's universities. We noted that the HE sector has a good record of managing its finances through difficult times, and that we would expect institutions to make realistic assessments of their financial futures and adjust provision accordingly so that they continue to deliver their high quality teaching and research.

HEFCW's accompanying written submission to the Committee provided background information in support of the oral evidence, and referred to the role of universities in Wales's economy, including as employer and investor; and future challenges. It also explained how universities were funded, both via HEFCW and from other sources, including through student fees and commercial activities.

More

Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 20 Ionawr 2010, rhoddodd CCAUC dystiolaeth gerbron Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gyllido Addysg Ôl-16, Bellach ac Uwch.

Ein pwrpas oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ffeithiol sylfaenol addysg uwch (AU) yng Nghymru a'r materion a allai godi pe bai gostyngiad sylweddol mewn incwm i brifysgolion Cymru. Nodwyd bod gan y sector AU brofiad helaeth o reoli ei gyllid yn ystod amserau anodd ac y byddem yn disgwyl i'r sefydliadau wneud asesiadau realistig o'u sefyllfa ariannol yn y dyfodol ac addasu eu darpariaeth ar sail hyn er mwyn parhau i ddarparu addysgu ac ymchwil o safon uchel.

Roedd cyflwyniad ysgrifenedig CCAUC i'r Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gefndir i ategu'r dystiolaeth lafar, a chyfeiriodd at rôl prifysgolion yn economi Cymru, gan gynnwys fel cyflogwr a buddsoddwr. Eglurodd hefyd sut yr oedd prifysgolion yn cael eu cyllido gan CCAUC ac o ffynonellau eraill megis ffioedd myfyrwyr a gweithgareddau masnachol.

Mwy

Matched funding scheme for voluntary giving

The Matched Funding Schemes in Wales and England give universities and colleges an opportunity to establish a culture of giving and embed development for the longer term.

The programmes aim to provide donors with an incentive to give, by enabling philanthropic income to go further by matching private funding with public funding.

CASE (Council for Advancement and Support of Education) Europe has organised a one-day seminar for Vice-Chancellors and Principals on **Thursday, 20 May 2010** at the Four Seasons Hotel, Canary Wharf, London to examine best practice in fundraising and development. There will be an evening reception followed by dinner at the London Marriott Hotel West India Quay after the seminar.

The seminar, chaired by Professor Shirley Pearce, Vice-Chancellor and President of Loughborough University, will focus on fundraising and philanthropy within higher and further education institutions. This seminar will provide vice-chancellors and principals with the opportunity to hear from leaders in advancement in both UK and overseas.

The seminar will also consider:

- The challenges faced by educational institutions, particularly at this time of uncertainty
- Growing a culture of philanthropy
- Making it work in your institution: where to start?
- The leadership relationship between the Vice-Chancellor, senior lay

Y cynllun arian cyfatebol ar gyfer rhoi gwirfoddol

Mae'r Cynlluniau Arian Cyfatebol yng Nghymru a Lloegr yn rhoi cyfle i brifysgolion a cholegau meithrin meddylfryd o roi ac yn hwyluso datblygiadau yn y tymor hir.

Nod y rhaglenni yw sicrhau bod gan roddwyr gymhelliad i roi, drwy ei gwneud hi'n bosibl i incwm o roi fynd ymhellach gan fod arian cyhoeddus cyfatebol yn cael ei ddarparu hefyd.

Mae Cyngor dros Hyrwyddo a Chefnogi Addysg Ewrop (CASE Ewrop) wedi trefnu seminar undydd ar gyfer Is-Gangellorion a Phrifathrawon ar **Ddydd Iau, 20 Mai 2010** yn y Four Seasons Hotel, Canary Wharf, Llundain i ystyried arfer da mewn perthynas â chodi arian a datblygu. Ar ôl y seminar, cynhelir derbyniad gyda'r nos a dilynir hyn gan ginio yn y London Marriott Hotel, West India Quay.

Bydd y seminar, a gadeirir gan yr Athro Shirley Pearce, Is-Ganghellor a Llywydd Prifysgol Loughborough, yn canolbwyntio ar godi arian a meithrin haelioni o fewn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. Bydd y seminar hwn yn rhoi cyfle i'r Is-Gangellorion a Phrifathrawon wrando ar arweinwyr ym maes hyrwyddo addysg o'r DU a gwledydd tramor.

Bydd y seminar hefyd yn ystyried:

- Y sialensiau a wynebir gan sefydliadau addysgol, yn enwedig ar yr adeg ansicr hon.
- Meithrin meddylfryd o roi
- Gwneud iddi weithio yn eich sefydliad chi: ble i ddechrau?
- Mewn perthynas ag arweinyddiaeth, y berthynas rhwng yr Is-Ganghellor, arweinwyr/gwirfoddolwyr lleyg uwch, a'r Cyfarwyddwr

leaders/volunteers and the Development Director

- The Matched Funding Scheme: short-term impact and longer-term consequences

Confirmed speakers include:

- Professor Shirley Pearce, Vice-Chancellor and President, Loughborough University
- Professor Rick Trainor, Principal, King's College London
- Chris Cox, Director of Development, University of Manchester
- Ron Gray, Director of Development, University of Loughborough

Places are limited, so please register online to secure your place.

Further information: Joyce Achampong, achampong@case.org, phone 020 7448 9940.

Welsh institutions involved in the HEFCW Matched Funding Scheme may apply for one of four scholarships that are available to cover 75% of the cost of this seminar. For more information, please contact Kate Hunter at hunter@case.org

Please also contact Kate Hunter should you want information about a Development for Deans event to be held by CASE Europe, for which scholarships will also be available.

HEFCW's Matched Funding Scheme circular

Datblygu

- Y Cynllun Arian Cyfatebol: effaith dymor-byr a chanlyniadau tymor-hir

Cadarnhawyd y byddai'r siaradwyr canlynol yn bresennol:

- Yr Athro Shirley Pearce, Is-Ganghellor a Llywydd Prifysgol Loughborough
- Yr Athro Rick Trainor, Prifathro, Coleg King's, Llundain
- Chris Cox, Cyfarwyddwr Datblygu, Prifysgol Manceinion
- Ron Gray, Cyfarwyddwr Datblygu, Prifysgol Loughborough

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd, felly byddwch cystal â chofrestru ar-lein i sicrhau eich lle.

Gwybodaeth bellach: Joyce Achampong, achampong@case.org, ffôn 020 7448 9940.

Gall sefydliadau Cymreig sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Arian Cyfatebol CCAUC wneud cais am un o bedair ysgoloriaeth sydd ar gael i dalu am 75% o gost y seminar hwn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Kate Hunter yn hunter@case.org.

Cysylltwch â Kate Hunter hefyd os hoffech gael gwybodaeth am ddigwyddiad Datblygu i Ddeoniaid a fydd yn cael ei gynnal gan CASE Ewrop. Bydd ysgoloriaethau ar gael ar gyfer hwn hefyd.

Cylchlythyr CCAUC

Engaging with the Welsh Assembly Government's Economic Renewal Programme

In October 2009 the Welsh Assembly Government Minister for the Economy and Transport announced his intention to get Wales thinking about how it approaches economic development, and how Welsh Assembly Government departments need to work more effectively with partner organisations such as universities. We have already met twice with Assembly colleagues to look at the contributions both we and the HE sector could make to the exercise, and have been invited to continue to work with them over the coming months to offer our perspective on areas such as research activity, knowledge transfer and exchange, and commercialisation. The exercise is expected to conclude with advice to the Minister in July, with implementation commencing in September this year.

Cyfrannu at Raglen Adnewyddu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ym mis Hydref 2009 cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei fwriad i annog Cymru i feddwl am ei hagwedd at ddatblygu economaidd, a sut mae angen i adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio'n fwy effeithiol gyda phartner gyrff megis prifysgolion. Rydym eisoes wedi cyfarfod ddwywaith â'n cydweithwyr yn y Cynulliad i ystyried y cyfraniadau y gallem ni a'r sector AU eu gwneud i'r ymarfer, ac rydym wedi cael gwahoddiad i barhau i weithio gyda hwy yn ystod y misoedd i ddod i gynnig ein safbwynt ar feysydd megis ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth, a masnacheiddio. Disgwylir i'r ymarfer ddod i ben pan roddir cyngor i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf, a dechreuir gweithredu ym mis Medi eleni.

All things green

Bangor University won the RICS (Royal Institution of Chartered Surveyors) Wales 2009 Sustainability Award for its Environment Centre Wales building, which houses Environment Centre for Wales. AUDE Newsletter 28, Summer 2009

Cardiff University was highly commended for its 'green ICT' at the 2009 Green Gown awards. The energy efficiency and performance of its Green Supercomputer and Datacentre earned the University this recognition as a 'beacon of good practice'.

Swansea University and the University of Wales, Newport launched RCE (Regional Centre of Expertise) Wales, which will advance Education for

Pob peth gwyrdd

Enillodd Prifysgol Bangor Wobr Cynaliadwyedd 2009 Sefydliad Syrfewyr Siartredig Cymru am adeilad Canolfan yr Amgylchedd Cymru, sy'n gartref i Ganolfan yr Amgylchedd Cymru. Newyddlen AUDE 28, Haf 2009

Cafodd Prifysgol Caerdydd glod uchel am ei 'TGCh werdd' yng ngwobrau Gŵn Gwyrdd 2009. Ar sail effeithlonrwydd a pherfformiad egni ei Chanolfan Uwchgyfrifiadur a Data Gwyrdd mae'r brifysgol wedi cael ei chydnabod yn esiampl o arfer da.

Lansiodd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru, Casnewydd Ganolfan Arbenigedd Ranbarthol Cymru a fydd yn hyrwyddo cynlluniau Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF/ESDGC). Mae'r

Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC) initiatives. RCE Wales is formally recognised by the United Nations University, alongside a global network of other recognised RCEs for ESDGC. It will research, develop and promote ESDGC, to encourage a sustainable Wales that does use more than its share natural resources.

Ganolfan yn cael ei chydnabod yn ffurfiol gan Brifysgol y Cenhedloedd Unedig, ochr yn ochr â rhwydwaith byd-eang o ganolfannau eraill o'r fath. Bydd yn ymchwilio, yn datblygu ac yn hyrwyddo ADCDF er mwyn annog creu Cymru gynaliadwy nad yw'n defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau naturiol.

Welsh universities recognised for their commitment to young people from care

All of Wales's universities have now achieved the Frank Buttle Trust Quality Mark for Care Leavers in Higher Education. The Quality Mark recognises universities' commitment to providing support and additional funding for people of all ages with a care background, and identifies institutions which have improved care leavers' academic skills to succeed in school, college and university.

69 UK institutions have achieved the quality mark and Wales is the first part of the UK where all higher education institutions have been recognised in this way.

See also: W09/21HE: Widening Access: Looked After Children and Care Leavers

> This circular provides information on higher education institutions' progress in supporting looked after children (LAC) and care leavers, including examples of effective practice.

Cydnabod prifysgolion Cymru am eu hymrwymiad i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae pob un o brifysgolion Cymru bellach wedi ennill Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch. Mae'r Nod Ansawdd yn cydnabod ymrwymiad prifysgolion i ddarparu cymorth a chyllid ychwanegol i bobl o bob oedran a fu mewn gofal, ac yn enwi sefydliadau sydd wedi gwella medrau academaidd ymadawyr gofal i'w helpu i lwyddo yn yr ysgol, coleg a phrifysgol.

Mae 69 o sefydliadau'r DU wedi ennill y nod ansawdd a Chymru yw'r rhan gyntaf o'r DU lle y mae'r holl sefydliadau addysg uwch wedi cael eu cydnabod fel hyn.

Gweler hefyd: W09/21HE: Ehangu mynediad: plant dan ofal ac ymadawyr gofal

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud gan sefydliadau addysg uwch ym maes cefnogi plant dan ofal ac ymadawyr gofal, gan gynnwys enghreifftiau o arfer effeithiol.

Information toolkit for higher education governors

Since HEFCW holds or has ready access to a wealth of statistics and performance information, we have collated and published an ‘Information Toolkit’ for higher education governing bodies, comprising:

- a range of reports showing the performance or position of the Welsh sector and individual institutions in a UK context;
- a handbook which identifies the range of existing useful data sources and information; and
- reports outlining the higher education sector's historical performance against Welsh Assembly Government targets set out under Reaching Higher, along with sector forecasts against the targets.

The material in the Toolkit is a selection of all data available to, and used by, institutions. While the main responsibility for providing such information to governing body members rests with the institutions, we hope that the Toolkit will supplement that information by giving governors a small selection of high level data showing institutions in Wales relative to all other UK institutions.

Pecyn offer gwybodaeth i lywodraethwyr addysg uwch

Gan fod CCAUC yn cadw neu’n gallu cyrchu cyfoeth o ystadegau a gwybodaeth berfformiad, rydym wedi paratoi a chyhoeddi ‘Pecyn Offer Gwybodaeth’ i gyrff llywodraethu addysg uwch sy’n cynnwys:

- amrywiaeth o adroddiadau sy’n dangos perfformiad neu safle’r sector Cymreig a sefydliadau unigol yng nghyd-destun y DU;
- llawlyfr sy’n manylu ar yr ystod bresennol o wybodaeth a ffynonellau data defnyddiol sydd ar gael; ac
- adroddiadau sy’n amlinellu perfformiad hanesyddol y sector addysg uwch yn erbyn targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Ymgeisio’n Uwch, ynghyd â rhagolygon y sector yn erbyn y targedau.

Mae’r Pecyn Offer yn cynnwys detholiad o’r holl ddata sydd ar gael i sefydliadau ac a ddefnyddir ganddynt. Er mai’r sefydliadau sy’n bennaf cyfrifol am ddarparu gwybodaeth o’r fath i aelodau o gyrff llywodraethu, gobeithiwn y bydd y Pecyn Offer yn ategu’r wybodaeth honno drwy roi i lywodraethwyr ddetholiad bach o ddata lefel uchel sy’n cymharu sefydliadau yng Nghymru â holl sefydliadau eraill y DU.

Welsh Assembly Government Governance Review of HEFCW

The report on the "Citizen-centred Governance Review" that was carried out by the Welsh Assembly Government’s Performance and Governance unit from

Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Lywodraethu yn CCAUC

Mae’r adroddiad ar yr ‘Adolygiad Dinesydd-ganolog o Lywodraethu’ a wnaed gan uned Perfformiad a Llywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng

June to August 2009 is now available.

The review was part of a wider programme of governance reviews established as part of the Welsh Assembly Government's public service improvement agenda, which replaces the former quinquennial reviews of Assembly Government Sponsored Bodies (AGSBs).

The governance reviews focus on adding value and problem solving. The reviewers explored current practice and delivery against a number of principles to see what is going well and less well; captured good practice and innovation; and identified future challenges, barriers to change and areas for action.

The full report.

mis Mehefin a mis Awst 2009 bellach ar gael.

Roedd yr adolygiad yn rhan o raglen ehangach o adolygiadau o lywodraethu a sefydlwyd fel rhan o agenda gwella gwasanaeth cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n disodli'r adolygiadau pum-mlynyddol blaenorol o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r adolygiadau o lywodraethau yn canolbwyntio ar ychwanegu gwerth a datrys problemau. Bu'r adolygwyr yn edrych ar arferion a chyflawniadau presennol yn erbyn nifer o egwyddorion i ddarganfod yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn nad yw'n mynd cystal; i nodi arfer da ac arloesedd; ac i dynnu sylw at sialensiau yn y dyfodol, rhwystrau i newid a meysydd lle y mae angen gweithredu.

Yr adroddiad llawn.

HEFCW Council and Committees

- We would like to thank Professor Garel Rhys and Mr Ken Richards for their work over their terms as Council members, which came to an end in December 2009.
- HEFCW staff and Council members would like to extend their congratulations to Professor Danny Saunders of the University of Glamorgan, and a member of our Student Experience, Teaching and Quality Committee, who was awarded an OBE in the New Year Honours List 2010.

Cyngor a Phwyllgorau CCAUC

- Hoffem ddiolch i'r Athro Garel Rhys a Mr Ken Richards am eu gwaith yn ystod eu cyfnodau fel aelodau o'r Cyngor, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2009.
- Hoffai staff ac aelodau Cyngor CCAUC longyfarch yr Athro Danny Saunders o Brifysgol Morgannwg, ac aelod o'n Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, y dyfarnwyd OBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2010.

Fellowship awarded

Karen Wolliner, our Procurement Manager, has been awarded Fellowship of the Chartered Institute of Purchasing & Supply (CIPS), the highest grade of membership, which is awarded as a hallmark of professional standing. CIPS is the leading body representing the field of purchasing and supply chain management. Karen, who has worked in the field of procurement for eighteen years, joins five hundred fellows out of a membership of 54,000.

Dyfarnu cymrodoriaeth

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth y Sefydliad Prynu a Chyflenwi Siartredig (CIPS), y lefel uchaf o aelodaeth, i Karen Wolliner, ein Rheolwr Caffael. Fe'i dyfernir i gydnabod statws proffesiynol uchel. CIPS yw'r prif gorff sy'n cynrychioli pobl broffesiynol ym meysydd prynu a rheoli'r gadwyn gyflenwi. Mae Karen, a fu'n gweithio ym maes caffael ers deunaw mlynedd, yn ymuno â phum cant o gymrodyr allan o aelodaeth o 54,000.

Silver first for healthy HEFCW

In December 2009, HEFCW became the first organisation in Wales to be awarded the Welsh Assembly Government's small workplace health award at silver level.

The award recognises measures taken in smaller organisations to help improve the health and well-being of staff. We were commended for the range of materials and resources available to staff, and the policies and procedures in place which promoted physical and mental health and well-being.

Professor Philip Gummett, Chief Executive, said: "An effective organisation values the welfare of its staff. Attaching importance to health and wellbeing, through not only our resources and policies, but also HEFCW's culture and values, helps motivate and sustain a high-achieving workforce."

Yr arian cyntaf i CCAUC iach

In December 2009, HEFCW became the first organisation in Wales to be awarded the Welsh Assembly Government's small workplace health award at silver level.

The award recognises measures taken in smaller organisations to help improve the health and well-being of staff. We were commended for the range of materials and resources available to staff, and the policies and procedures in place which promoted physical and mental health and well-being.

Professor Philip Gummett, Chief Executive, said: "An effective organisation values the welfare of its staff. Attaching importance to health and wellbeing, through not only our resources and policies, but also HEFCW's culture and values, helps motivate and sustain a high-achieving workforce."

Coming up

HEFCW Institutional Visit Institutional Visits help our Council members and senior management engage with governors and senior staff from HE institutions and discuss issues affecting the host institution and the wider higher education sector. The next one will take place on 11 March at Cardiff University.

Next Council meeting The Welsh Assembly Government Minister responsible for higher education attends our Council meeting once a year. We are looking forward to welcoming the new Minister for Children, Education and Lifelong Learning, Leighton Andrews AM, to our next meeting on 12 March.

HEFCW's annual grant to the HE sector Wales will be discussed and will be confirmed at the next Council meeting in March. We plan to notify institutions of their final allocations for the 2010/11 academic year before the end of March.

Strategic dialogue meetings Twice a year, our Council and senior staff meet with the Welsh Vice-Chancellors' representative body Higher Education Wales (HEW), and the chairs of governing bodies, Chairs of Higher Education Wales (CHEW). The next 'Strategic Dialogue Meeting' is due to take place on the afternoon of 18 March at Aberystwyth University.

Over the next three months, we expect to:

- Consult on For our Future's recommendation that higher education in Wales is developed in the context of a regional planning and delivery structure.
- Publish our initial action plan based on the recommendations of For our Future, the Welsh Assembly Government's 21st Century Higher Education Strategy and Plan for Wales, and consult on our next Corporate Strategy.
- Provide funding, through JISC, to assist institutions in meeting strategic concerns in enhancing learning and teaching through the use of technology, building on, and learning from, the HEFCW-funded Gwella Programme. Information will be sent to Pro Vice-Chancellors for Learning and Teaching, or their equivalents.

I ddod

Ymweliad Sefydliadol CCAUC Mae Ymweliadau Sefydliadol yn rhoi cyfle i aelodau'r Cyngor ac uwch-reolwyr ddod i gysylltiad â llywodraethwyr a staff uwch o'r sefydliadau AU a thrafod materion sy'n effeithio arnynt a'r sector addysg uwch ehangach. Cynhelir yr un nesaf ar 11 Mawrth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cyfarfod nesaf y Cyngor Bydd Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am addysg uwch yn mynychu un o gyfarfodydd ein Cyngor bob blwyddyn. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r Gweinidog newydd dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Leighton Andrews AC, i'n cyfarfod nesaf ar 12 Mawrth.

Bydd grant blynyddol CCAUC i'r sector AU yng Nghymru yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ym mis Mawrth. Ein bwriad yw hysbysu'r sefydliadau o'u dyraniadau terfynol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/1 cyn diwedd Mawrth.

Cyfarfodydd deialog strategol Ddwywaith y flwyddyn bydd ein Cyngor a staff uwch yn cyfarfod â'r corff sy'n cynrychioli Is-Gangellorion Cymru, Addysg Uwch Cymru (AUC), a chadeiryddion y cyrff llywodraethu, Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC). Cynhelir y 'Cyfarfod Deialog Strategol' nesaf yn y prynhawn ar 18 Mawrth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Yn ystod y tri mis nesaf, disgwyliwn:

- Ymgynghori ar argymhelliad Er Mwyn Ein Dyfodol y dylai addysg uwch yng Nghymru gael ei datblygu yng nghyd-destun strwythur cynllunio a gweithredu rhanbarthol.
- Cyhoeddi ein cynllun gweithredu cychwynnol ar sail yr argymhellion yn Er Mwyn Ein Dyfodol, Cynllun a Strategaeth Addysg Uwch yr 21ain Ganrif i Gymru a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac ymgynghori ar ein Strategaeth Gorfforaethol nesaf.
- Darparu cyllid, drwy JISC, i helpu sefydliadau i gwrdd â nodau strategol ym maes defnyddio technoleg i wella dysgu ac addysgu, gan adeiladu ar Raglen Gwella CCAUC a dysgu oddi wrthi. Anfonir gwybodaeth i'r Is-Gangellorion Dysgu ac Addysgu, neu swyddogion cyfwerth.

Recent circulars

New! W10/06HE: Developing a Regional Dimension to the Planning and Delivery of Higher Education

W10/04HE and W10/05HE: 2010/11 primary and secondary ITT intake targets.

W10/03HE: Outcomes of HEFCW review of support for disabled students

This presents the key outcomes of our research of support for disabled students in the HE sector in Wales. It gives an overview of the progress the sector has made since our guidance to the sector was published in 1999, and areas for development, including good practice for institutions.

W10/02HE: Mechanisms for Supporting the Enhancement of Learning Opportunities

This sets out the key features of HEFCW support for the enhancement of learning opportunities for students by higher education (HE) institutions, which will also help support HE students in further education institutions.

W10/01HE: Procedure for Addressing Unsatisfactory Quality in Institutions in Wales

Unsatisfactory quality will be determined through the Quality Assurance Agency's Institutional Review: Wales process, other assessments, inspections or reviews (eg by Estyn or other Professional, Statutory and Regulatory Bodies (PSRBs)), or our strategic engagement with institutions. We will apply the procedure when we consider an institution to be at higher risk in terms of the quality of its provision.

Cylchlythyron diweddar

Newydd! **W10/06HE Datblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch**

W10/04HE a W10/05HE: targedau HCA cynradd ac uwchradd 2010/11

W10/03HE: Canlyniadau adolygiad CCAUC o gymorth i fyfyrwyr anabl

Mae hwn yn cyflwyno canlyniadau allweddol ein gwaith ymchwil i gymorth ar gyfer myfyrwyr anabl yn y sector AU yng Nghymru. Mae'n bwrw golwg dros y cynnydd y mae'r sector wedi'i wneud ers cyhoeddi ein harweiniad i'r sector ym 1999, a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys arfer da i sefydliadau.

W10/02HE: Dulliau o roi cymorth i wella cyfleoedd dysgu

Mae hwn yn disgrifio nodweddion allweddol y cymorth a roddir gan CCAUC i sefydliadau addysg uwch (AU) i wella cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mae hefyd yn cwmpasu myfyrwyr AU mewn sefydliadau addysg bellach.

W10/01HE: Y drefn ar gyfer mynd i'r afael ag ansawdd anfoddhaol mewn sefydliadau yng Nghymru

Bydd ansawdd anfoddhaol yn cael ei ddarganfod drwy gyfrwng Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd: proses Cymru, asesiadau eraill, arolygiadau neu adolygiadau (e.e. gan Estyn neu Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol eraill) neu drwy ein hymwneud strategol â'r sefydliadau. Byddwn yn cymhwyso'r drefn hon pan ystyriwn fod sefydliad mewn perygl uwch yn nhermau ansawdd ei ddarpariaeth.